

Cynlluniau Lle Ceredigion

Cynllun Lle Llanbedr Pont Steffan

2019



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Cyflwyniad



Yn ystod y deng mlynedd diwethaf, mae Llanbedr Pont Steffan wedi newid yn sylweddol, a hynny o ran canol y dref, cymunedau lleol, a demograffeg. Nod Cynllun Lle Llanbedr Pont Steffan yw ailfywiogi a chynnal apêl y dref, gan ddilyn egwyddorion Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion a phennu trywydd priodol ar gyfer datblygiadau yn y dyfodol fel rhan o fframwaith clir.

Mae Cynllun Lle Llanbedr Pont Steffan yn rhan atodol gyfreithiol o Gynllun Datblygu Lleol Ceredigion.

Yn ychwanegol at y Cynllun Lle sy'n canolbwyntio'n uniongyrchol ar amcanion a dyheadau cynllunio cyfreithiol, mae Llanbedr Pont Steffan (Llambled) yn llunio 'Gweledigaeth Llambled 2030' fel dogfen weithio sy'n cynnwys gwybodaeth a gasglwyd drwy ymgynghori tu allan i gyloch gwaith penodol 'cynllunio'.

Strategaeth ar gyfer y dyfodol

Mae'r strategaeth a ganlyn yn amlinellu gweledigaeth glir i ddatblygu'r dref yn y dyfodol ar sail cynllun hollgynhwysol a chydlynol sydd wedi'i bwyso a'i fesur yn ofalus ar gyfer pob rhan o Llambled a'r ardaloedd cyfagos, yn hytrach na'r dull presennol o gynllunio'r dref fesul dipyn. Mae Llambled am gynyddu'r ddarpariaeth i ymwelwyr, ac mae hefyd am barhau i fod yn ganolfan gwasanaethau bwysig sy'n cael ei chynnal yn dda ar gyfer trigolion a busnesau lleol, a pharhau i wasanaethu cymunedau sy'n ystyried Llambled fel eu prif dref yng Ngheredigion.

Gan ystyried y weledigaeth strategol a'r weledigaeth leol, ynghyd â'r nodau a'r pryderon a ddaeth i'r amlwg yn ystod y broses ymgynghori, lluniwyd dull cynaliadwy hirdymor cyffredinol o fynd ati i ddatblygu Llambled yn y dyfodol. Fe'i hamlinellir yn y Cynllun Lle hwn. Gellir crynhoi'r strategaeth o dan y chwe phrif bennawd a ganlyn:

1. Iechyd a llesiant

Bydd llesiant cymunedol ymhlyg yng nghanlyniad pob cais cynllunio yn ardal Llambled, a bydd yn fesuradwy ac yn benodol.

2. Creu lleoedd: y Gymraeg a diwylliant Cymru

Bydd y Gymraeg a diwylliant Cymru ymhlyg ym mhob rhan o'r broses caniatâd cynllunio yn ardal Llambled ac yng nghanlyniad pob caniatâd cynllunio. Dylid chwilio am gyfleoedd i ddefnyddio'r Brifysgol a'i chyfleusterau i gryfhau'r ddarpariaeth Cymraeg i Oedolion yn yr ardal, a hybu'r cyfleoedd hynny.

3. Gwella'r amgylchedd

i. Lleoliadau a thirnodau pwysig

Dylai creu Strategaeth Mannau Agored i Llambled fod yn un o flaenoriaethau gweithgor 'Llambled 2030', a dylai roi sylw i lawer o'r pwyntiau a ganlyn:

- Plannu coed â gwreiddiau byrion mewn lleoliadau priodol
- Gosod gwaith celf cymunedol priodol mewn lleoliadau y cytunir arnynt

- Gosod mwy o feinciau ar strydoedd mewn lleoliadau allweddol
- Annog camau i warchod ein hawyr dywyll drwy fynd ati'n ofalus i ddewis goleuadau stryd ar gyfer datblygiadau newydd a datblygiadau sy'n bodoli eisoes, a phwyso a mesur y posibilrwydd y gallai lleoliadau eraill ger Llambod ennill statws 'Safle Darganfod Awyr Dywyll – Dosbarth y Llwybr Llaethog' i annog ymwelwyr i ddod i'r ardal
- Dewis coetiroedd a safleoedd ar lan yr afon i'w rheoli at ddibenion hamdden
- Cynllunio i greu tirnodau newydd yn yr ardaloedd sy'n flaenoriaeth, ac adnewyddu'r tirnodau sy'n bodoli eisoes
- Ymgymryd â gwaith hollbwysig i adnewyddu cloc y dref

ii) Gwella'r Stryd Fawr a gwella ffryntiadau adeiladau

- a) Cadw'r ffryntiadau yn y rhannau o Heol y Bont, y Stryd Fawr a Stryd y Coleg sydd yn ardal A fel ffryntiadau amhreswyl cynradd
- b) Cadw'r ffryntiadau yn y rhannau o Heol y Bont, y Stryd Fawr a Stryd y Coleg sydd yn ardal B fel rhai preswyl ac amhreswyl, gan roi blaenoriaeth i'w newid i ddefnydd preswyl os gofynnir i gael gwneud hynny
- c) Creu llwybrau troed uniongyrchol, gydag arwyddion, i gysylltu canol y dref â'r ystad ddiwydiannol
- d) Datblygu Stryd y Farchnad yn bromenâd i gerddwyr â goleuadau da, seddi, safleoedd manwerthu bach, a chyfleusterau ar gyfer masnach a digwyddiadau dros dro a thymhorol, gyda mynediad i breswylwyr a cherbydau danfon nwyddau
- e) Rhoi gostyngiad dewisol yn y ffioedd sy'n gysylltiedig â cheisiadau i newid defnydd adeiladau amhreswyl sydd wedi bod yn wag ac sydd wedi cael eu hesgeuluso am gyfnod hir
- f) Gwella'r fynedfa i Llambed ar hyd Heol y Gogledd, gan roi pwyslais ar greu man hamdden awyr agored hyblyg ar dir y Brifysgol ar gornel Heol y Orsaf ac adnewyddu Neuadd Burgess

iii) Diwylliant hanesyddol a threftadaeth bensaernïol

- Pennu adeiladau yn Llambod y byddai modd eu hystyried ar gyfer caniatâd adeilad rhestredig
- Annog Adran Gynllunio Ceredigion i roi'r canllawiau cynllunio cenedlaethol ar waith yn fanwl gywir, gan roi pwyslais ar warchod y bensaernïaeth enghreifftiol a geir yn ardal gadwraeth y dref, annog camau i ailosod nodweddion pensaernïol fel ffenestri siop o faint priodol sy'n gydnaws â'r bensaernïaeth gyfagos, ac annog defnydd o ddeunyddiau priodol
- Peri iddi fod yn ofynnol i ddyluniadau datblygiadau newydd yn ardal Llambod ddefnyddio deunyddiau a ffurfiau cynhenid

- iv) *Gwella'r amgylchedd naturiol*
- Cymeradwyo camau i osod arwyddion, llwybrau a goleuadau rhwng mannau cyhoeddus agored
 - Cymeradwyo defnyddio'r llain las arfaethedig i ddarparu rhandiroedd a chyfleusterau ar gyfer y rheini sy'n eu defnyddio
 - Annog camau i arallgyfeirio tir amaethyddol/gorlifdir segur h.y. plannu coed helyg cynhenid i greu coetiroedd sy'n bachu carbon o'r aer ar ffin Cwmann a Llanybydder ger yr afon, ynghyd ag ailgyflwyno gwrychoedd cynhenid a reolir
 - Gosod mwy o finiau baw cŵn yng nghanol y dref ac mewn mannau cyhoeddus
 - Gosod wyneb solet hydraid ar gaeau criced* y Brifysgol i ddarparu man addas ar gyfer digwyddiadau cymunedol y bydd pobl yn gyrru iddynt (sinema awyr agored, arwerthiant cist car ac ati) a maes parcio ychwanegol ar gyfer digwyddiadau mewn rhannau eraill o Llambed, ynghyd â chynllunio'r fynedfa'n briodol o'r ffordd fawr
 - Ceisio statws 'maes y dref' a 'gwarchodfa natur' ar gyfer ardaloedd penodedig

4. Teithio cynaliadwy a hygyrchedd

- Caniatáu i berchnogion busnesau barhau i ddefnyddio'r gofod tu allan i'w siopau i osod arwyddion, celfi stryd a nwyddau, gan sicrhau bod y palmant yn parhau i fod yn hollol hygyrch bob amser
- Darparu maes parcio bysiau a charafannau, loceri beiciau ac e-feiciau, a mannau gwefru cyflym ar gyfer ceir trydan yn y dref
- Gosod arwyddion mawr a chilir ger y tair mynedfa i'r dref i dynnu sylw at ei rhinweddau a'i chyfleusterau
- Creu arwyddion ar gyfer canol y dref i nodi'r prif leoliadau, llwybrau a chyfleusterau
- Gosod byrddau rhyngweithiol mewn lleoliadau pwysig yn y dref i roi gwybod i bobl leol ac ymwelwyr am ddigwyddiadau, gwybodaeth leol ac ati
- Creu llwybrau beicio newydd i gysylltu tref Llambed â'r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol

5. Cyfleoedd datblygu

Rhaid annog datblygwyr i ysgwyddo cyfrifoldeb cymdeithasol uwch na'r safon ofynnol pan roddir caniatâd cynllunio i ddatblygiadau mawr, gan sicrhau bod cyfleusterau hamdden yn cael eu diogelu a'u hadeiladu a bod datblygwyr yn chwarae rhan ymarferol mewn prosiectau cymunedol. Mae'r dref o blaid

datblygiadau bach sy'n cynnwys cyfleoedd i bobl adeiladu eu tai eu hunain, yn ogystal â chartrefi carbon niwtral.

6. Hyrwyddo a rheoli

Sefydlu grŵp i gydgyssylltu, i reoli ac i hyrwyddo cynllun y dref

Rhoi'r cynllun ar waith

Y partïon sy'n gyfrifol am oruchwylio'r Cynllun Lle hwn a'i roi ar waith yw:

- Adran Gynllunio Ceredigion a fydd yn defnyddio'r ddogfen fel rhan allweddol o'r broses o benderfynu ar geisiadau cynllunio yn Llambled a'r fro (ac Adran Gynllunio Sir Gaerfyrddin lle bo'n berthnasol)
- Cyngor Tref Llambled sy'n ymgynghorai statudol yn y broses gynllunio ac a fydd yn ysgwyddo cyfrifoldeb dros drefnu i graffu ar effaith mesurau'r Cynllun Lle ar ganlyniadau cynllunio, ac am herio caniatâd cynllunio os yw'n ymddangos nad yw'r rhain wedi cael ystyriaeth ddyladwy
- Gweithgor Llambled 2030, nad yw wedi'i enwi hyd yma. Ei genhadaeth fydd hybu gwelliannau sy'n gysylltiedig â chynllunio yn y dref, fel y'u nodir yn y cynllun hwn, a'i nod fydd rhoi ar waith brosiectau eraill nad ydynt yn gysylltiedig â chynllunio sy'n deillio o'r broses o lunio'r Cynllun Lle.

IECHYD A LLESIANT

Mae llesiant cymunedau Llambled a'r pentrefi o'i hamgylch o'r pwys mwyaf, ac mae ymhlyg yn yr holl gynigion datblygu a amlinellir yn y cynllun hwn. O gysylltu cymunedau, lleoliadau a syniadau drwy ddatblygiadau priodol a phwrpasol, bydd yn sicrhau bod modd gwella llesiant cenedlaethau'r dyfodol. Mae Cynllun Lle Llambled yn seiliedig ar werthoedd a nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Chynllun Llesiant Lleol Ceredigion 2018-2023, ac mae'n adlewyrchu'r gwerthoedd a'r nodau hynny. Felly, byddwn yn cydweithio mewn ffordd gefnogol i wireddu'r nodau llesiant cenedlaethol i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Llambled.

O wella darpariaeth teithio'r rhanbarth, bydd yn gwella mynediad y gymuned ehangach at gyfleusterau chwaraeon a hamdden i bobl o bob oed. Bydd gweithgor Llambled 2030 yn mynd ati'n barhaus i gefnogi camau i greu gweithgareddau llesiant yn y gymuned, ac i wella mynediad at y ddarpariaeth llesiant sydd ar gael eisoes.

CREU LLEOEDD: Y GYMRAEG A DIWYLLIANT CYMRU

Bydd cydnabyddiaeth o'r Gymraeg a diwylliant Cymru, a pharch tuag atynt, yn cael eu gwau i bob rhan o'r gwaith sy'n gysylltiedig â Chynllun Lle Llambled ac i unrhyw

ddatblygiadau yn y dref yn y dyfodol. Bydd diwylliannau eraill o bwys, fel y gymuned Bwylaidd a'r gymuned Tsieineaidd, hefyd yn cael eu hadlewyrchu fel rhan o hunaniaeth ryngwladol Llambled.

Yn sgil llunio'r Cynllun Lle, dylai deunydd, iaith ac estheteg unrhyw arwyddion newydd a osodir yn Llambled ac yn yr ardal ehangach adlewyrchu'r diwylliant lleol, yn ogystal â hunaniaeth ddiwylliannol Cymru gyfan.

Bydd y Gymraeg yn edau hollbwysig a fydd yn cael ei gwau drwy bob datblygiad cymunedol, a byddwn yn annog ymhellach gamau i ddarparu dosbarthiadau Cymraeg i rai nad ydynt yn siarad yr iaith er mwyn cefnogi ymdrechion Llywodraeth Cymru i greu ac i gefnogi miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Yn ystod yr ymgynghoriad, cafodd y syniad o greu canolfan debyg i Ganolfan Iaith Nant Gwrtheyrn, ynghyd â Chanolfan Dreftadaeth, ei grybwyll. Awgrymwyd bod y Brifysgol yn Llambled yn dal i fod mewn sefyllfa ddelfrydol i gefnogi cyrsiau Cymraeg preswyl dwys, fel yr arferai ei wneud pan gâi cyrsiau preswyl Wlpan eu cynnal ar gampws Llambled.

Addysg

Mae'r addysg 3-18 a ddarperir yn Llambled yn ased pwysig i'r dref, a bu i Estyn nodi bod Ysgol Bro Pedr yn sicrhau canlyniadau Da yn gyffredinol yn ei asesiad yn 2016. Mae'n hollbwysig hyrwyddo hyn, ochr yn ochr â'r addysg feithrin a gwasanaethau cymunedol fel Canolfan Steffan, gan fod darpariaeth addysg yn bwysig pan fydd pobl yn ystyried symud i'r ardal. O gael darpariaeth addysg gadarn, gallem hefyd elwa o ddenu poblogaeth iau i ymgartrefu yn y dref a'r ardal gyfagos, gan wrthbwyso'r allfudiad presennol ymhlith pobl ifanc Ceredigion ar ôl iddynt gwblhau eu haddysg amser llawn.

O gynhyrchu cyrsiau addysg uwch ac addysg bellach yn y Brifysgol yn Llambled drwy raglen arfaethedig yr 'Ysgol Gydnerthedd', bydd yn darparu cyfleoedd dysgu lleol sy'n seiliedig ar sgiliau. Bydd y cyrsiau hyn yn dysgu egwyddorion a sgiliau cymhwysol ym maes dylunio cynaliadwy i drigolion lleol ac i fyfyrwyr o'r tu hwnt i'r dref. Nid yw cyrsiau sy'n seiliedig ar gydnerthedd mewn meysydd sy'n ymwneud â chynaliadwyedd yn y sectorau Bwyd ac Amaeth, yr Amgylchedd Adeiledig, ac Ynni yn cael eu dysgu ar lefel prifysgol yn unrhyw le arall yn y DU. O roi'r rhaglen ar waith, bydd yn ategu agwedd arloesol Llambled tuag at fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd.

O ddefnyddio adeiladau a chyfleusterau presennol y Brifysgol i greu ac i gefnogi mentrau gwerthfawr sy'n seiliedig ar wybodaeth, gallai roi hwb economaidd i Llambled drwy roi'r hyn a ddysgir ar waith mewn busnesau lleol. Gallai arbenigedd ym maes adeiladu cynaliadwy fod yn sylfaen dda i roi ar waith lawer o'r prosiectau a'r canllawiau datblygu a allai ddeilio o'r Cynllun Lle ac o waith gweithgor Llambled 2030.

GWELLA'R AMGYLCHEDD / CYFLEOEDD I NEWID

Gwella'r Stryd Fawr a gwella ffryntiadau adeiladau

Mae'r Cynllun Lle yn ceisio annog amrywiaeth o siopau, gan fynd ati ar yr un pryd i gadw ein siopau annibynnol o ansawdd da ac i gynnal cymeriad y dref. Mae'n nodi pedair prif ardal siopa yn Llambod (A – D isod) ac mae cyfleoedd unigryw i roi newid ar waith ym mhob un ohonynt.

ARDAL A: ffryntiadau prif strydoedd siopa Heol y Bont, y Stryd Fawr a Stryd y Coleg o fewn ffiniau canol y dref

Argymhellir y dylid cadw ffryntiadau'r adeiladau yn ardal A fel prif ffryntiadau manwerthu, ac y dylid gwneud pob ymdrech i gadw siopau sy'n darparu nwyddau amrywiol o ansawdd uchel. Byddai modd defnyddio siopau gwag fel lleoliadau dros dro, neu byddai modd i sawl busnes eu rhannu, a hynny i hybu defnydd ohonynt a'u hatal rhag dirywio ar ôl bod yn wag am gyfnodau hir. Mae ffryntiadau manwerthu eilaidd y tair prif stryd tu allan i ffiniau canol y dref wedi'u nodi ar y cynllun.

ARDAL B: Dylai'r ffryntiadau manwerthu presennol yn ardal B ar gyrion canol y dref hefyd anelu at hybu defnydd manwerthu lle bo modd; ond mewn amgylchiadau penodol, gall fod modd caniatáu newid defnydd adeiladau o ddefnydd manwerthu i ddefnydd preswyl.

Dylai'r penderfyniadau hyn fod yn ddibynnol ar effaith newidiadau o'r fath ar gynllun hirdymor y dref. Byddant yn mynd ati'n bennaf i asesu'r effaith ar gymeriad, bywiogrwydd, hyfywedd ac ansawdd cyffredinol canol y dref. Mae strategaeth tref Llambod yn ceisio hybu eiddo preswyl newydd yng nghanol y dref, yn enwedig mewn gofod nad yw'n cael ei ddefnyddio'n ddigonol uwchben siopau. Mae hefyd yn annog camau i ddarparu tai hygyrch, tai gwarchod neu dai amlddeiliadaeth yng nghanol y dref i fanteisio ar y ffaith bod modd cyrraedd pob rhan o ganol y dref, a'i chanolfannau gwasanaethau, ar dir gwastad, ac i gyfrannu at hunaniaeth gymunedol canol y dref. Mae angen gwneud mwy i ystyried y ffordd orau o gael mynediad at gartrefi a siopau segur i'w hailddatblygu i liniaru effaith adeiladau gwag ar y dref.

ARDAL C: yr ystad ddiwydiannol/manwerthu ar Ffordd Tregaron.

Mae ystad ddiwydiannol Llambod yn ased o ran darpariaeth manwerthu'r ardal, a dylid cydnabod hyn drwy osod llwybrau cerdded a beicio i wella'r cysylltiadau â'r dref a thrwy osod digon o arwyddion o ganol y dref.

ARDAL D: Stryd y Farchnad, stryd gefn gyda pharth cerddwyr sy'n cysylltu Stryd y Coleg (wrth ymyl siop Gwilym Price) â'r Stryd Fawr (islaw Cloc y Dref).



Mae'r Cynllun Lle hefyd wedi nodi y byddai modd gwella Stryd y Farchnad a Maes y Farchnad (llun) drwy greu parth cerddwyr (gan barhau i ddarparu mynediad i breswylwyr ac i gerbydau danfon nwyddau) a thrwy ddarparu gofodau manwerthu bach dros dro a thymhorol, fel stondinau bwyd stryd ar nosweithiau'r haf a marchnadoedd Nadolig. Gallai fod yn ffordd fuddiol o gysylltu strydoedd Llamedd, gan greu ardal ddeniadol i eistedd ynddi a darllen tu allan i'r llyfrgell yn ystod y dydd, a phromenâd diogel sydd wedi'i oleuo'n dda i gefnogi economi fywiog liw nos.



Byddai modd datblygu unedau manwerthu bach ar gyfer defnydd cymysg, gyda llety preswyl uwchben. Byddai hyn yn cadarnhau hunaniaeth yr ardal fel ardal fanwerthu bwysig arall.

O ystyried y dref yn ei chyfanrwydd, cafodd yr ardaloedd a ganlyn eu clustnodi fel ardaloedd y mae angen mynd ati i wella eu hymddangosiad ar unwaith:

- Yr hen arcêd a'r siop cebabs – Dau eiddo sydd wedi bod yn wag ac sy'n dadfeilio erbyn hyn. Gellir gwella'r sefyllfa yn y tymor byr drwy wneud gwaith cosmetig i adfer gwedd allanol yr adeiladau (paentio, atgyweirio'r pren). Yn y tymor hir, dylid annog camau i'w hadnewyddu a'u meddiannu eto.

- Hen siop Spar a'r fynedfa i Stryd y Farchnad – Siop wag â ffryntiad mawr a wal dalcen fawr nad yw'n gwneud llawer i wella'r treflun (llun isod).



- Neuadd Burgess a thir y Brifysgol ar gornel Heol yr Orsaf (llun isod). A hithau wedi'i lleoli ar y brif ffordd i'r dref o'r Gogledd, byddai mynd ati i wella'r ardal hon nid dim ond yn cael effaith gadarnhaol ar ymwelwyr â'r dref, gan gynnwys y rheini sy'n mynd i ddigwyddiadau yn Neuadd Buddug, ond byddai hefyd yn dechrau ailgysylltu canol y dref â chyrion y dref drwy greu cyrchfan ddeniadol, bwrpasol i'r cyhoedd ei mwynhau.



Argymhellir y dylid mynd i'r afael ar lefel gymunedol â'r problemau sylfaenol sy'n peri i adeiladau barhau i fod yn wag, ac y gallai'r gweithgor a sefydlir fynd ati i gynnig datrysiadau pwrpasol ar gyfer pob safle i'w rhoi ar waith gan y perchnogion os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Mae'n hanfodol defnyddio celf a lliw i greu strydoedd deniadol, a dylid gwneud pob ymdrech i sicrhau bod ffryntiadau adeiladau'n cael eu cadw mewn cyflwr da, a'u bod yn

gydnaws ag arddull bensaernïol yr ardal. Byddai'n fuddiol llunio palet o liwiau priodol i gefnogi'r gwaith i ategu hunaniaeth y dref. O greu Cynllun Arfarnu a Rheoli'r Ardal Gadwraeth, gallai osod sylfaen ar gyfer newidiadau yn y dyfodol i estheteg y dref, a chefnogi / hybu cynllun Llambod 2030.

O osod gwaith celf cymunedol a murluniau gan arlunwyr proffesiynol mewn mannau pwysig ledled y dref (fel y waliau gwag wrth ymyl siop Sainsbury's, a welir isod, a'r lôn wrth ymyl Asiant Gwerthu Tai Evans Bros), gallai greu diddordeb ac ymdeimlad o berchnogaeth gymunedol, yn ogystal â pheri i'n tref barhau i fod yn ddeniadol ac yn groesawgar – dwy agwedd bwysig ar y gwaith o greu tref ddiogel a bywiog. Yn yr un modd, o barhau i oleuo'r Brifysgol mewn gwahanol liwiau gyda'r nos, a chynnwys asedau pensaernïol eraill yn y rhaglen, gallai beri i'n strydoedd fod yn fwy difyr liw nos. Byddai hefyd yn sicrhau bod modd i'r dref fynd ati mewn ffordd greadigol i ddangos ei bod yn cefnogi dyddiadau cenedlaethol pwysig, fel Sul y Cofio, a digwyddiadau lleol.



Lleoliadau a thirnodau pwysig

Dylai strategaeth tref Llambod fywiogi'r ardal drwy ddefnyddio ein hasedau presennol yn llwyr i sicrhau bod ein tref yn ddeniadol a bod ei hadnoddau o fewn cyrraedd trigolion

y dref ac ymwelwyr fel ei gilydd. Ar hyn o bryd, ceir tri maes chwarae i blant yn y dref, ond byddem yn croesawu darpariaeth chwarae ychwanegol ar ben arall y dref, ger yr ysgolion. Er bod y dref yn gwneud defnydd da o'i hadeiladau amlbwrpas i gynnal digwyddiadau ac ati, nid oes llawer o atyniadau penodol i dwristiaid yn y dref ei hun. Byddai trac pwmpio neu barc sglefrio awyr agored, neu atyniadau dan do, fel canolfan chwarae meddal neu ganolfan fowlio, yn ddeniadol i drigolion ac ymwelwyr fel ei gilydd (ac yn gwella'r ddarpariaeth i bobl ifanc yr ardal). O wneud mwy i hyrwyddo'r asedau presennol, fel Canolfan Cwiltiau Cymru ac Amgueddfa Llambled, gallai hefyd gael effaith gadarnhaol ar nifer yr ymwelwyr â'r dref.

Byddai'r dref yn elwa o blannu coed mawr â gwreiddiau byrion mewn lleoliadau priodol i roi cysgod a gwyrddni, ac i greu mannau lle gall pobl gwrdd yn naturiol – mae Sgwâr Harford yn un lleoliad o'r fath lle byddem yn croesawu rhywfaint o dirweddu meddal drwy gydol y flwyddyn. Dylid plannu coed amrywiol i gynnal diddordeb drwy gydol y flwyddyn, gan ddewis y rhywogaethau gorau i gefnogi bywyd gwyllt lleol. Byddai modd dewis coed cynhenid mawr i fod yn nodweddion o bwys mewn lleoliadau fel gwaelod Ffordd Maestir, a byddai modd dewis coed sy'n gydnaws â hunaniaeth Llambled yn y dyfodol. O osod gwaith celf cymunedol priodol a/neu blinth ar gyfer cerflun ar Sgwâr Harford, gallai greu canolbwynt priodol ar gyfer tref fel Llambled, a rhoi cyfle inni ddathlu ein treftadaeth ym maes crefftau.

Byddai modd gosod meinciau bob yn dipyn ar hyd strydoedd mewn lleoliadau pwysig. O wneud hyn, gallai annog pobl i gerdded i'r dref o'r cyrion, yn enwedig o gofio bod gennym boblogaeth sy'n heneiddio ac y gall pobl fod am orffwys yn aml pan fyddant yn cerdded pellteroedd. Rydym yn annog camau i ddatblygu rhai o adnoddau naturiol Llambled, fel y coetir a'r afon, yn safleoedd sy'n cael eu rheoli ar gyfer gweithgareddau hamdden, gan gysylltu'r lleoliadau pwysig hyn â chynllun strategol ehangach i ddenu ymwelwyr i'r dref.

Fel rhan o'r cynllun cyffredinol i wella canol y dref, cynigir mynd ati mewn ffordd briodol i wella ymddangosiad tirnodau amlwg. Ymhlith y prif adeiladau a nodweddion y mae angen eu gwella yn y tymor byr mae Neuadd y Dref, gwedd allanol Neuadd Buddug, a Sgwâr Harford. Mae Cloc y Dref yn enwedig yn rhan neilltuol o dreftadaeth Llambod, ac mae dyletswydd arnom i ofalu amdano ac i gynnal ei statws a'i fri.



Rydym yn annog camau i osod cerfluniau a gwaith celf newydd pwrpasol, neu goed o bwys, yn y lleoliadau a ganlyn fel rhan o raglen i adnewyddu'r dirwedd feddal a chaled, a hynny i greu tirnodau newydd a allai effeithio'n gadarnhaol ar y ffordd y bydd pobl yn amgyffred y rhannau hyn o'r dref: y man eistedd blinedig yr olwg ar waelod Temple Terrace (Ilun), y tir ar waelod Heol Maestir ym Mhontfaen, a'r ardal eistedd ar y Comins.

Rhoddir caniatâd cynllunio i osod cerfluniau a gwaith celf yn yr ardaloedd hyn ac mewn ardaloedd eraill a bennir gan y gweithgor yn y dyfodol.

Mae adeiladau a nodweddion eraill yn y dref yn dirnodau pwysig i helpu pobl i gael hyd i'w ffordd o amgylch y dref – y Brifysgol a'i thiroedd, y Gofeb Ryfel, Sgwâr Harford, Parc Saint-Germain-sur-Moine, y Llew Du, siop Gwilym Price ar Stryd y Coleg, a'r bont dros afon Teifi – ac mae'n hollbwysig sicrhau eu bod yn amlwg a bod eu statws yn parhau.

Diwylliant hanesyddol a threftadaeth bensaernïol

Mae Llambled ar ei hennill o gael pensaernïaeth o ansawdd uchel drwyddi draw sy'n adrodd hanes datblygiad y dref. Mae nifer o adeiladau rhestredig yn y dref, ond mae llawer mwy o adeiladau o bwys neilltuol nad ydynt wedi'u rhestru. Awgrymir y dylid diogelu adeiladau fel Neuadd Buddug, Neuadd Burgess (gyda'r cerfiadau yn y gwaith bric – gweler y llun) a rhai o'r siopau mwyaf cain ar y Stryd Fawr a Stryd y Coleg i sicrhau nad ydym yn colli rhannau sylweddol o hanes cymdeithasol y dref. Bu'r camau digynsail i ddymchwel ffasâd adeilad hen ysgol Ffynnonbedr ar Heol y Bryn yn ergyd ddiweddar i'r gymuned, a bydd yn cael effaith barhaol ar hanes cymdeithasol gweledol y dref.


Mae enwau strydoedd Llambled yn nodwedd bwysig o ran adrodd hanes y dref, ac awgrymir y byddai'n fuddiol gosod cyfres o fyrddau gwybodaeth rhyngweithiol i egluro tarddiad yr enwau. Byddai modd gosod rhwydwaith o drawsryddion gwybodaeth i'w defnyddio gydag ap y dref i ychwanegu haen arall o wybodaeth am dreftadaeth y dref. Awgrymir y dylid rhoi enw sy'n briodol i'r ardal i bob datblygiad newydd, a hwnnw'n enw sy'n deillio'n uniongyrchol o'r union ardal lle mae'r datblygiad wedi'i leoli, neu'n enw sydd wedi'i ysbrydoli gan yr ardal honno.

Dylai unrhyw ddatblygiadau newydd yn y dref fod o ansawdd uchel, a dylai deunyddiau a ffurfiau cynhenid fod wrth wraidd eu dyluniadau. Anogir camau i wella ansawdd ac ymddangosiad adeiladau sy'n bodoli eisoes yn unol ag enghreifftiau lleol da o arddull debyg, a hynny i greu strydlun unedig, yn enwedig yng nghanol y dref.

Mae diwylliant hanesyddol Llambled a'r fro yn gyfoethog ac yn amrywiol, ac mae llawer o asedau ffisegol yn dal i fodoli – e.e. adeilad y Brifysgol, Sarn Helen ac adeiladau Rhufeinig eraill, mwnt y castell Normanaidd ar dir y Brifysgol – ac anogir mynd ati i hyrwyddo eu hanes yn ehangach. Mae Amgueddfa Llambled mewn sefyllfa dda i fynd ati i hyrwyddo Llambled yn barhaus drwy ei threftadaeth, a bydd ei chyfraniad at weithgor Llambled 2030 yn hollbwysig.

Gwella'r amgylchedd naturiol

Drwy'r ymgynghoriad ar y Cynllun Lle, daeth i'r amlwg fod pobl yn awyddus i gael mwy o blanhigion yn y dref. Mae'r Cynllun hefyd yn annog camau i gysylltu holl fannau cyhoeddus agored yr ardal, ac i sicrhau bod y mannau hynny'n hygyrch, fel y sonnir drwy'r adroddiad hwn.



Ymhlith y gwelliannau arfaethedig y byddai modd eu gwneud i fannau cymunedol yn y tymor byr drwy Strategaeth Llambled 2030 mae:

- mynd ati gyda grwpiau garddio a bywyd gwyllt cymunedol i integreiddio ardaloedd nad ydynt yn cael eu defnyddio ddigon i greu cyfleusterau a rennir
- plannu coed helyg cynhenid i fachu carbon ar orlifdir sydd dan ddŵr, ond gall fod angen ystyried mesurau ychwanegol i reoli llifogydd yn siop y Co-op a'i faes parcio
- gwella cyfleusterau i rai sy'n cerdded cŵn, gan osod biniau baw cŵn a pheiriannau dosbarthu bagiau baw cŵn, ond dylid chwilio am ddatrysiadau i brosesu'r gwastraff yng Nghymru os yw'n bosibl
- ailgyflwyno coed a gwrychoedd cynhenid a reolir ar y ffordd i Llambed o Gwmann

Mae'n bwysig cadw meysydd a chaeau chwarae, ond o annog camau i ddefnyddio'r lleoliadau hyn at ddibenion amrywiol – er enghraifft, sinema awyr agored dros dro ac arwerthiant cist car rheolaidd ar safle ar Heol Pontfaen – byddai'n creu ased llawer mwy hyblyg i'w fwynhau gydol y flwyddyn, pe câi rhywfaint o waith strwythurol ei wneud, ac yn creu maes parcio hygrych ychwanegol ar gyfer digwyddiadau. Dylid annog camau i ddyrannu mannau awyr agored yn Llambled lle gellir gosod llwyfan uwchdechnoleg awyr agored dros dro i gynyddu'r posibilrwydd o gynnal digwyddiadau mawr o ansawdd da yma.

O ystyried y posibilrwydd o gael statws 'Maes Pentref' a 'Gwarchodfa Natur' ar gyfer rhai ardaloedd ar lan yr afon a rhai mannau gwyrdd yn Llambled, fel tir hamdden y Brifysgol, y coetir o amgylch y dref, a Pharc Saint-Germain-sur-Moine, bydd yn diogelu'r lleoliadau hyn rhag eu datblygu yn y dyfodol, gan eu cadw ar gyfer llesiant cenedlaethau'r dyfodol ac ar gyfer astudiaethau o fflora a ffawna'r ardal.

Teithio cynaliadwy a hygrychedd

Un o brif amcanion y strategaeth yw peri iddi fod yn haws i gerbydau a cherddwyr ddod i ganol y dref drwy hybu teithio llesol, blaenoriaethu hygrychedd i bobl ag anableddau, a gwella ansawdd gwasanaethau cludiant cyhoeddus a llwybrau beicio'r ardal. Ni cheir cysylltiadau cludiant cyhoeddus da rhwng Llambled a threfi fel Aberteifi a Llandysul. Byddai'n fuddiol darparu mwy o wasanaethau i wella'r cysylltiadau rhwng prif drefi Ceredigion, gan gynyddu symudiadau pobl rhwng y trefi hynny ac ehangu eu heconomïau lleol. Mae sicrhau bod Llambled fod yn fwy hygrych i rai sy'n byw mewn cymunedau cyfagos ac aneddiadau cyswllt hefyd yn flaenoriaeth, gan fod llawer o'r cymunedau hyn wedi colli eu gwasanaethau lleol, fel banciau, siopau a swyddfeydd post.

O safbwynt anabledd, mae strydoedd Llambled yn llydan, gyda digon o le i bobl basio'i gilydd. Mae nifer dda o'r busnesau eisoes yn defnyddio arwyddion a chelfi stryd yn llwyddiannus, heb amharu ar y rheini sy'n defnyddio'r palmentydd, p'run a ydynt ar

droed ai peidio. Mae defnyddio'r gofod tu allan i'w siopau yn hanfodol i fanwerthwyr modern, a byddai modd cynnwys hygrychedd ein strydoedd mewn ffordd gadarnhaol fel rhan o strategaeth hunaniaeth Llambod.

Byddai'n ddoeth i'r dref gael asesiad annibynnol o ba mor hygrych ydyw i bobl ag anableddau, a hynny er mwyn creu cyfres hunanreoleddig o argymhellion pwrpasol ar gyfer arferion da. O wneud hyn, bydd modd marchnata'r dref – gyda'i strydoedd siopa gwastad – fel cyrchfan sy'n addas i bobl ag anableddau. Byddai'n fuddiol gwneud addasiadau i'n gwasanaethau cludiant cyhoeddus presennol er mwyn iddynt fod yn hygrych, a byddai cynnwys cyfleusterau codi arbenigol yn y toiled hygrych yn y Llyfrgell yn hwb mawr i'r dref gan fod cyn lleied o gyfleusterau o'r fath ar gael i'r cyhoedd yng Ngheredigion.

Yn sgil newidiadau diweddar i Stryd y Coleg, cyflwynwyd bolardiau i ddiogelu cerddwyr ac i atal wyneb y palmant rhag cael ei ddifrodi drwy i geir a cherbydau danfon nwyddau barcio arno. Mae'r Cynllun Lle wedi nodi bod angen ystyried ymhellach y ffordd orau o ddod â nwyddau i siopau yng nghanol y dref.

Ochr yn ochr â'r posibilrwydd o ychwanegu mannau gollwng, mae'r Cynllun Lle yn tybio ei bod yn hanfodol darparu lleoedd parcio i fysiau/carafannau, loceri i feiciau gyda chyfleusterau gwefru e-feiciau, a man gwefru cyflym ar gyfer ceir trydan yng nghanol y dref. Ceir cyfleusterau gwefru gerllaw'r dref yng Ngwesty'r Falcondale, ond gan fod y gwesty filltir o ganol y dref, ni fydd canol y dref yn elwa fawr ddim yn uniongyrchol os bydd pobl yn aros yno i wefru eu ceir.

Anogir mynd ati i adolygu'r ffioedd parcio presennol, gan fod llawer o bobl leol ac ymwelwyr yn dweud bod y gost yn ormodol a'i bod yn eu rhwystro rhag gwneud defnydd llwyr o'r dref a'i chyfleusterau pan fo cyrchfannau eraill ar gael o fewn pellter rhesymol mewn car.

Ar y ffyrdd i mewn i'r dref, dylid mynd ati i osod arwyddion clir sy'n tynnu sylw at ei phrif rinweddau er mwyn annog ymwelwyr sy'n teithio drwodd i aros yn y dref yn hytrach na gyrru drwyddi yn unig. Yn y strategaeth arwyddion, dylid cynnwys gwybodaeth am lleoedd parcio i geir, carafannau a bysiau, mannau gwefru ceir trydan, a thanwydd. Yng nghanol y dref, byddai'n fuddiol iawn i ymwelwyr achlysurol â'r dref pe câi arwyddbyst eu gosod i'w cyfeirio at asedau a chyfleusterau – fel y Ganolfan Ailgylchu, archfarchnadoedd, toiledau cyhoeddus, y pwll nofio a'r ganolfan hamdden, parciau ac ardaloedd hamdden, y llyfrgell a swyddfa'r Cyngor – a byddai hefyd yn helpu i greu treflun cydlynol a deniadol. Yn hytrach na chael canolfan ffisegol i roi gwybodaeth i ymwelwyr, awgrymir y byddai'n fuddiol i ymwelwyr â'r ardal pe câi byrddau rhyngweithiol eu gosod mewn lleoliadau pwysig yn y dref (fel maes parcio'r Comins, a Sgwâr Harford). Byddai modd rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf am ddigwyddiadau wrth i'r flwyddyn galendr fynd rhagddi.

O roi arwyddion mewn parciau, ger tirnodau, ar lwybrau troed ar lan yr afon ar gyrion y dref, ac yng nghanol y dref i gyfeirio pobl o'r naill le i'r llall, gallai helpu i dywys pobl o amgylch Llambod mewn ffordd bwrpasol a'u hannog i ddefnyddio asedau naturiol

Llambed – ei choetiroedd, ei pharciau a'i hafonydd. Yn yr un modd, i sicrhau bod y dref yn hygyrch ar raddfa ehangach, mae'n hanfodol cael rhwydwaith da o llwybrau beicio (a marchogaeth) rhwng canol y dref a'r pentrefi cyfagos – fel llwybr Llanybi ar hyd yr hen reilffordd – a'u hestyn allan tuag at y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol. Bydd yr un mor bwysig sicrhau bod modd i bobl gerdded o'r llwybrau beicio hyn i ganol y dref ei hun, a hynny ar hyd llwybrau a rhodfeydd eilaidd sy'n cysylltu'r prif strydoedd a phalmentydd â'r llwybrau beicio, gan beri iddi fod yn hwylus ac yn ddeniadol i feicwyr sy'n teithio drwy'r ardal aros yn y dref.

Cyfleoedd datblygu

Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn pennu nifer o safleoedd datblygu posibl yn Llambed, ac yn nodi'r canlyniadau posibl pe câi'r safleoedd hyn eu datblygu yn y dyfodol. Yn ystod yr ymgynghoriad ar y Cynllun Lle, dywedodd yr ymatebwyr eu bod o blaid cadw'r mannau hamdden presennol, fel cae chwarae Maes-y-deri ar ben uchaf y dref, ac y dylid cyfyngu datblygiadau preswyl i safleoedd mewnlenwi yn y dref, yn hytrach na mynd tu hwnt i ffiniau presennol y dref. Dylid ystyried pob safle sydd wedi'i glustnodi fel safle mewnlenwi yn y Cynllun Datblygu Lleol i'w ddatblygu, ond argymhellir cynnal prawf cymalog ar gyfer pob datblygiad arfaethedig newydd.

Isod, ceir awgrym cryno sy'n deillio o'r ymgynghoriad o ran sut y dylid ymgymryd â datblygiadau yn Llambed yn y dyfodol, a'r broses y dylid ei dilyn bob tro:

- *EO501 – Parc Busnes Llambed a safleoedd addas eraill ar gyfer datblygiadau amhreswyl.* Mae'r Cynllun Lle yn nodi y gall fod galw am unedau newydd o feintiau amrywiol i ddiwallu'r angen am eiddo addas i'r diben ar gyfer prosesau diwydiannol, warysau masnachol, lleoliadau microfusnesau neu leoliadau a rennir. O greu unedau deori, gallai annog pobl i fentro ac i arloesi ym maes busnes, ac annog busnesau newydd i ddefnyddio'r unedau am gyfnodau penodedig i weld a ydynt yn hyfyw. Argymhellir hefyd y dylid ystyried helpu busnesau â llai o drosiant i gynnal eu tenantiaethau ar safleoedd diwydiannol mawr sy'n angenrheidiol er mwyn iddynt fasnachu, fel rhoi capiau ar gostau rhent preifat, a rhoi cynlluniau ar waith i annog busnesau i rannu asedau, fel cerbydau a gyrwyr, i leihau eu gorbenion.
- Yn ddelfrydol, byddai unrhyw ddatblygiad newydd yn cael ei uwchgyllunio'n briodol ar gyfer Tref Drawsnewid fel Llambed, gan ddarparu mwy o fannau gwyrdd na'r hyn sy'n ofynnol gan y gyfraith, creu coridorau natur amrywiol, a lleihau unrhyw dirweddu solet diangen i hybu niwtralrwydd carbon lle bo modd. Dylid annog pobl i ddefnyddio'r ardal fel parc, ac i symud ar droed ac ar feic, drwy ddarparu cysylltiadau da â chanol y dref a llwybrau cerdded a beicio lleol. Mae'n rhesymol awgrymu y dylai unrhyw ddatblygiadau diwydiannol newydd ar y

safle hwn, neu gerllaw iddo, gael eu hinswleiddio'n briodol i leihau i'r eithaf unrhyw lygredd sŵn ychwanegol ar y Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig.

- *HO505 – Tir wrth ymyl Maes-y-deri, a safleoedd addas eraill ar gyfer datblygiadau preswyl.* Mae'r Cynllun Lle yn cydnabod y bydd angen tai ychwanegol yn Llambod wrth i'r dref ddatblygu dros y degawd nesaf. Ond, fel y mae'r ymgynghoriad cyhoeddus wedi'i ddangos, mae'n amlwg hefyd fod y dref yn gwrthwynebu'n gryf unrhyw ddatblygiad preswyl mawr, fel y cynlluniau a gyflwynwyd ac a wrthodwyd yn ddiweddar ar gyfer safle Maes-y-deri. Mae'r Cynllun Lle yn ailddatgan nad oes unrhyw awydd i greu datblygiadau preswyl mawr – ni chafodd llawer o'r safleoedd datblygu a glustnodwyd ar gyfer tai yn y Cynllun Datblygu Lleol eu cydnabod o gwbl fel safleoedd posibl ar gyfer tai yn ystod yr ymgynghoriad. Serch hynny, anogir datblygiadau preswyl amgylcheddol-gynaliadwy ar raddfa fach, raddol, gyda phwyslais hefyd ar ddefnyddio contractwyr lleol a dulliau adeiladu arloesol o safbwynt ecolegol. O gyfyngu ar nifer y lleiniau sydd ar gael i bob datblygwr, byddai'n annog datblygwyr lleol llai o faint i fynd ati i ddatblygu, yn hytrach na chwmnïau cenedlaethol. Byddai hefyd yn bosibl gosod cynsail dylunio da o ran datblygu cynaliadwy drwy uwchgynllunio unrhyw safle'n ofalus i gynnwys mwy na'r nifer ofynnol o fannau gwyrdd a phlanhigion ar lwybrau cylchredol, gan gynnwys lleiniau i bobl adeiladau eu tai eu hunain, lleiniau hael gyda thai sydd wedi'u teilwra i'r gymuned (i greu stoc dai gymysg amlddeiliadaeth sy'n fforddiadwy ac yn hygyrch ac y gellir ei haddasu), a lle i dorri tir newydd drwy greu tai bychain, adeiladau parod di-garbon a datblygiadau o dan y Gyfarwydddeb Un Blaned. O bennu bod rhaid defnyddio contractwyr sydd wedi cael eu hyfforddi i ddefnyddio technoleg adeiladu ecolegol o ansawdd uchel yn lleol, gallai gael effaith gadarnhaol fawr yn y tymor hir o ran cadw pobl ifanc yn yr ardal, a hynny drwy ddarparu cyfleoedd hyfforddi deniadol yng Ngheredigion a bywoliaeth yn yr ardal.

Dylid ystyried cylch oes llawn unrhyw dai newydd, a dylid gosod cynsail o ran datblygu cartrefi gydol oes y gellir eu haddasu.

O gynnwys lles cynllunio hael sy'n gwasanaethu'r gymuned ehangach mewn cynigion ar gyfer datblygiadau mawr (fel ardaloedd chwarae i blant, gwrrachodfeydd natur a gerddi bywyd gwyllt a ddiogelir, banciau solar, cyfleuster compost sy'n cael ei drin â gwres yn y Ganolfan Ailgylchu, a rhandiroedd ar gyfer hunangynhaliadaeth ar y cyd), bydd yn cynnal cysylltiadau cymdeithasol yn y gymuned drwy sicrhau bod modd i bobl ddefnyddio cyfleusterau hamdden a chymryd rhan mewn prosiectau cymunedol.

HYBU A RHEOLI

Mae Llambod yn chwarae rôl bwysig o ran economi, diwylliant a llesiant Ceredigion. Ar hyn o bryd, mae'r dref yn cael ei rheoli'n bennaf gan Gyngor Tref Llambod, Siambr

Fasnach Llambod, a Chyngor Sir Ceredigion. Hyd yma, ni chafwyd un corff sy'n ysgwyddo cyfrifoldeb cyffredinol dros hyrwyddo a rheoli'r dref. O'r herwydd, mae'r broses o roi cynlluniau ar waith yn araf ac ni cheir gweledigaeth na chynllun cyffredinol ar gyfer yr ardal. Mae Cynllun Lle Llambod, yn ogystal â Gweledigaeth Llambod 2030, yn ceisio mynd i'r afael â'r broblem hon drwy sefydlu corff trosfwaol. Bydd yn cynnwys y grwpiau allweddol a restrir isod, ymhlith eraill – grwpiau sydd eisoes yn ymwneud â'r broses o wella Llambod a'r fro.

{RHODDIR ENWAU'R RHANDDEILIAID FAN HYN PAN FYDDANT WEDI'U CADARNHAU}

Bydd y grŵp hwn yn gyfrifol am drosi'r holl wybodaeth a gasglwyd yn ystod y broses o ymgynghori ar y Cynllun Lle yn gynllun ymarferol i'w roi ar waith mewn cyfnod penodedig. Efallai nad yw rhai o'r amcanion yn ddim mwy na breuddwyd gwrach, ond mae llawer ohonynt yn realistig ac, o gael gafael ar arian a'u rheoli'n briodol, bydd modd eu rhoi ar waith. Bydd y grŵp newydd yn chwarae rôl allweddol o ran cydgysylltu'r mentrau a'r swyddogaethau amrywiol sydd ar waith yn y dref a'r fro ehangach, gan fynd ati i gryfhau pob opsiwn. Mae cefnogi digwyddiadau sydd eisoes yn digwydd yn y gymuned a chreu digwyddiadau cymunedol newydd ar sail canlyniadau'r ymgynghoriad, ynghyd â manteisio ar gryfderau'r sefydliadau sy'n dod ynghyd i greu'r gweithgor, yn flaenoriaeth. Yn y pen draw, bydd yr holl wybodaeth a gesglir yn cael ei rhannu ag aneddiadau cyswllt Llambod a'r cynghorau cymuned cyfagos er mwyn iddi gael ei defnyddio yn ôl y gofyn ar bob lefel yn y gymuned.

Darpariaeth gymunedol a thwristiaeth

Yn ogystal â darparu dull cydgysylltiedig cyffredinol o weithredu, bydd y grŵp yn mynd ati i gynyddu nifer yr ymwelwyr â'r dref a'r ardaloedd cyfagos, law yn llaw â'r gymuned fusnes, i feithrin partneriaeth waith a fydd yn gwella ac yn cynnal canol y dref yn y tymor hir. O greu ap ar gyfer y dre, ynghyd â mentrau technolegol eraill, bydd yn cynorthwyo'r grŵp â'i waith drwy bennu nifer yr ymwelwyr â'r dref. Mae profiad trefi eraill yn dangos bod hyn yn eithriadol o werthfawr wrth fynd ati i roi newidiadau ar waith i ddenu ymwelwyr i'r dref.

Drwy'r grŵp, bydd Llambod hefyd yn cydweithio â grwpiau tebyg yn Aberteifi, Llandysul, Tregaron, Aberaeron ac Aberystwyth i greu ac i gynnal ein cyfraniad cyfoethog, gwerthfawr a llewyrchus at y ddarpariaeth i drigolion yr ardal ac i ymwelwyr â Cheredigion. O lunio mentrau ar y cyd sydd wedi'u pwysu a'u mesur yn dda i hybu dull cydgysylltiedig o gynllunio'r ardal gyfan, gallwn greu ardal ag apêl eang i ddenu mwy o ymwelwyr a'u cadw.